Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Dadansoddiad Rhaglen Allforio – Dylunio Arolwg a Gwerthuso Effaith

## Crynodeb

Mae hwn yn gyfle cyffrous i wneud lleoliad gwaith ar brosiect i Lywodraeth Cymru sy'n cyfrannu at brosiect effaith uchel o fewn tîm Dadansoddi Masnach o fewn yr adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS). Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cefnogi'r Tîm Cymorth Allforio drwy gynnal ymchwil a dadansoddiad sy'n canolbwyntio ar garfan o allforwyr newydd sydd wedi elwa o gymorth Llywodraeth Cymru yng Nghymru. Bydd y lleoliad yn gofyn am ymchwil gyda buddiolwyr (arolwg ar-lein a chyfweliadau dilynol o bosibl), a dadansoddiad o'r canfyddiadau. Os oes amser i ymgymryd â rhai prosiectau dadansoddol llai tra bod yr arolwg yn y maes, gallai hyn gynnwys dadansoddiad gwahaniaeth mewn gwahaniaethau yn ogystal â nodi'r paramedrau ar gyfer categoreiddio busnesau eraill yng Nghymru sydd â photensial allforio neu sydd â photensial thwf Uchel trwy allforio.

Byddai'r myfyriwr yn chwarae rhan allweddol wrth helpu i ddiffinio'r paramedrau a'r dangosyddion y gellir eu defnyddio i asesu parodrwydd allforio a photensial twf. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gydag ystod o ffynonellau data, ymgysylltu â rhanddeiliaid, a chymhwyso technegau dadansoddol i gynhyrchu mewnwelediadau a all lywio penderfyniadau polisi a gweithredol.

Mae'r lleoliad hwn yn cynnig cyfle unigryw i gymhwyso sgiliau ymchwil academaidd mewn amgylchedd gweithredol go iawn, cyfrannu at wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac ennill profiad o weithio o fewn tîm dadansoddol amlddisgyblaethol. Bydd y prosiect hefyd yn cefnogi datblygiad proffesiynol y myfyriwr trwy wella eu dealltwriaeth o bolisi masnach, datblygu economaidd, a rôl y llywodraeth wrth gefnogi twf busnes.

### Y sefydliad

Llywodraeth Cymru yw'r Llywodraeth ddatganoledig ar gyfer Cymru sy'n gyfrifol am yr economi, addysg, iechyd a'r GIG yng Nghymru, busnes, gwasanaethau cyhoeddus ac amgylchedd Cymru.

Yn benodol, bydd yr interniaeth wedi'i lleoli o fewn y gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS). Mae KAS yn casglu, dadansoddi a chyflwyno ymchwil a data ar gyfer llunwyr polisïau a'r cyhoedd yn unol â safonau proffesiynol. Maent yn cynnig tystiolaeth annibynnol i ddeall, datblygu, gweithredu, monitro a gwerthuso polisïau'r llywodraeth. Mae KAS hefyd yn cefnogi cydweithwyr polisi i ddatblygu, gweithredu a chyflawni polisïau.

### Yr interniaeth

Wedi'i leoli o fewn tîm amlddisgyblaethol o ymchwilwyr ac ystadegwyr sy'n gweithio ar ddadansoddi Masnach, Ffiniau a Thablau Mewnbwn-Allbwn, mi fydd yr interniaeth yn gyfle cyffrous i weithio wrth galon Llywodraeth Cymru. Bydd yr intern yn gweithio'n agos gyda swyddogion polisi ac ymchwilwyr, a bydd cyfle iddynt roi eu sgiliau ymchwil ar waith mewn amgylchedd polisi, i ddatblygu mwy ar eu sgiliau cyffredinol (megis ysgrifennu adroddiadau a gwneud cyflwyniadau) a chyfoethogi eu gwybodaeth am bolisi.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn elwa ar gyfleoedd datblygu a gynigir yn ganolog gan Lywodraeth Cymru, a gall hyn gynnwys mentora, cysgodi, cefnogaeth gan gymheiriaid a hyfforddiant.

Bydd interniaid yn elwa ar y profiad o gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru:

- Meithrin gwell dealltwriaeth o'r byd y tu allan i'r byd academaidd a chynyddu cyflogadwyedd, gan ddefnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau i gyfrannu at waith Llywodraeth Cymru.
- Gall cydweithwyr yr intern yn Llywodraeth Cymru gynnig goleuni pellach ar ei brosiect PhD a all gyfrannu at lwyddiant y thesis, yn ogystal â chyfleoedd rhwydweithio o fewn y maes polisi sy'n gysylltiedig â'r maes ymchwil
- Sgiliau a gwybodaeth trosglwyddadwy
- Sgiliau rheoli amser
- Sgiliau ysgrifennu adroddiadau

**Y prosiect**

*Cefndir*

Hoffai'r Tîm Cymorth Allforio yn Llywodraeth Cymru gael arolwg ar-lein i ofyn am adborth ar ei Raglen Allforwyr Newydd. Nod yr arolwg hwn fyddai asesu boddhad ac ymgysylltiad â'r Rhaglen, i ddeall yr effaith y mae'r gefnogaeth yn ei darparu, nodi unrhyw ganlyniadau a gyflawnwyd a deall cefndir y busnesau sy'n ymateb. Bydd canlyniadau'r arolwg yn llywio penderfyniadau ynghylch unrhyw estyniad posibl o'r Rhaglen.

Os yw'r interniaeth yn caniatáu gwaith pellach, byddai gofyniad posibl i gynnal dadansoddiad pellach ar set ddata arolwg sy'n bodoli o fuddiolwyr a rhai nad ydynt yn fuddiolwyr o gymorth allforio arall gan lywodraeth Cymru. Byddai hyn yn cwmpasu dadansoddiad gwrthffeithiol gwahaniaeth-mewn-wahaniaethau; yn ogystal â nodi'r paramedrau ar gyfer categoreiddio busnesau yng Nghymru a allai fod â photensial allforio heb ei ddefnyddio neu dwf uchel.

*Canlyniadau prosiect a ragwelir:*

- Adroddiad Dadansoddol: Adroddiad cynhwysfawr sy'n crynhoi canfyddiadau o ymchwil eilaidd (e.e. adolygiadau llenyddiaeth, cyd-destun polisi) a dadansoddiad cynradd (e.e. ymatebion arol, cyfweliadau). Bydd hyn yn cynnwys mewnwelediadau i

ymgysylltu â busnes, boddhad â'r Rhaglen Allforwyr Newydd, ac unrhyw ganlyniadau neu effeithiau a adroddwyd.

- Crynodeb o Ganlyniadau'r Arolwg: Adroddiad canlyniadau ffocws, sy'n debyg o ran fformat i'r Rhaglen Clwstwr Allforio: canlyniadau'r arolwg adborth, sy'n cyflwyno metrigau allweddol, proffiliau ymatebwyr, a dadansoddiad thematig o adborth. Bydd hyn yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch ymestyn neu fireinio posibl y Rhaglen.
- Cyflwyniad Canfyddiadau: Cyflwyniad cryno a hygyrch o ganfyddiadau'r ymchwil, sy'n addas ar gyfer rhanddeiliaid mewnol a thimau polisi. Bydd hyn yn tynnu sylw at dystiolaeth allweddol, goblygiadau ar gyfer cymorth yn y dyfodol, ac argymhellion ar gyfer nodi busnesau sydd â photensial allforio heb ei ddefnyddio neu dwf uchel.

**Cyfrifoldebau a gofynion yr interniaeth**

Bydd yr interniaeth yn para am gyfnod o hyd at dri mis. Disgwylir i fyfyrwyr llawn amser gamu'n ôl o'u PhD i ganolbwyntio ar yr interniaeth am ei gyfnod, yn unol â chanllawiau ESRC (Canllaw Cyllido Ôl-raddedig ESRC tud. 27). Anogir ceisiadau gan fyfyrwyr rhan-amser.

Rhagwelir y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio mewn ffordd hybrid rhwng adref ac un o swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn ystod ei interniaeth. Gall hyn newid yn ddibynnol ar bolisi Llywodraeth Cymru. Bydd unrhyw newidiadau i drefniadau gweithio yn cael eu trafod gydag ymgeiswyr llwyddiannus.

Bydd yr interniaeth yn para am gyfnod o 3 mis amser llawn neu'r hyn sy'n cyfateb yn rhan-amser. Ar gyfer myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru yn rhan-amser, mae'r interniaeth hon ar gael yn rhan-amser dros gyfnod hwy (dim llai na thri diwrnod yr wythnos waith), i'w negodi rhwng Llywodraeth Cymru a'r ymgeisydd llwyddiannus. Os hoffech gael eich ystyried ar sail ran-amser, nodwch eich dewis oriau gwaith ar y ffurflen gais.

**Manyleb myfyriwr**

Rhaid bod gan y myfyriwr:

- Sgiliau dadansoddol cryf, gyda'r gallu i asesu a dehongli data meintiol ac ansoddol yn feirniadol.
- Profiad o ddadansoddi data arolwg a chyflwyno canfyddiadau gan ddefnyddio siartiau a delweddiadau clir, strwythuredig iawn.
- Gallu profedig i gynhyrchu dogfennau cryno, wedi'u hysgrifennu'n dda sy'n cyfathrebu deunydd technegol mewn fformat hygyrch.
- Y gallu i weithio'n annibynnol a rheoli blaenoriaethau cystadleuol i gwrdd â dyddiadau cau tynn.
- Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu rhagorol, gan gynnwys y gallu i ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyflwyno canfyddiadau'n effeithiol.

Byddai'n ddymunol i'r myfyriwr gael:

- Dealltwriaeth o'r dirwedd fusnes yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â gweithgarwch allforio a rhaglenni cymorth gan y llywodraeth.

**Dyddiad dechrau'r interniaeth**
Canol mis Ionawr, 2026 (yr union ddyddiad i'w drafod). Efallai y bydd rhywfaint o hyblygrwydd yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

**Cyllid a chostau**
Gellir talu costau teithio rhesymol i fyfyrwyr nad ydynt fel arfer wedi'u lleoli yng Nghaerdydd. Dylai ceisiadau fod yn gyson â chanllawiau sgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru (YGGCC). Ni fydd ceisiadau gan fyfyrwyr sydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer teithio a llety yn cael eu trin yn llai ffafriol. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am hyn, cysylltwch â Katy Marrin Katy.Marrin001@gov.wales a Jo Coates Joanne.Coates@gov.wales

**Diogelwch**
Mae gweithdrefnau fetio Llywodraeth Cymru (sy'n berthnasol i staff dros dro yn ogystal â staff parhaol) yn cynnwys cwblhau ffurflen gais Safon Ddiogelwch Safonol ar gyfer Personél (BPSS) a Holiadur Diogelwch ar gyfer y broses fetio.

Mae'r broses hon yn gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno tri math gwreiddiol o ddogfen adnabod. Dylai un o'r rhain fod yn ddogfen â llun (pasbort, trwydded yrru newydd), dylai un ddogfen ddangos y cyfeiriad presennol, a gallai'r trydydd math fod yn fil cyfleustodau, tystysgrif geni, P45 neu P60.

**Gofynion cenedligrwydd**

Mae bod yn gymwys i gymryd rhan mewn prentisiaeth ar y cynllun hwn yn dibynnu ar gwrdd â rheolau cenedligrwydd y Gwasanaeth Sifil. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gymwys cyn gwneud cais. Ni all y rheini sydd ddim yn cwrdd â'r meini prawf cymhwysedd gymryd rhan mewn gwirfoddoli.

**Ymholiadau**

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r post neu'r broses ymgeisio I Cerys Ponting, Pennaeth Dadansoddi Masnach - Cerys.Ponting@gov.wales

**Hysbysiad preifatrwydd**

https://www.llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-llywodraeth-cymru